# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**DYDD** Mercher, 15 Gorffennaf 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Davies, Uwch-reolwr y Gwasanaethau Diwylliannol
S. Petherick, Uwch Rheolwr Gweithrediadau Actif
R. Stradling, Rheolwr Busnes a Phrosiectau
N. Thomas, Senior Outdoor Recreation Manager
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.45 yb

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 15FED IONAWR, 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2020 yn gofnod cywir.**

**3. TALIADAU HAMDDEN 2020-21**

Ystyriodd yr Aelod Bwrdd Gweithredol yr adroddiad ynghylch Taliadau Hamdden 2020-21 a oedd yn gofyn am gymeradwyo ffioedd manwl ar gyfer 2020-21 sy'n ffurfio rhan o'r cynllun cynhyrchu incwm ar gyfer yr adran hamdden yn 2020/21. Roedd yr adroddiad yn cynnwys codi tâl am y canlynol:-

- Gwasanaethau Diwylliannol (Lleoliadau'r Celfyddydau a'r Theatr)
- Lleoliadau Hamdden a Chwaraeon (canolfannau hamdden a phyllau nofio)
- Hamdden Awyr Agored (Parciau Gwledig, gan gynnwys y Parc Arfordirol y Mileniwm, a maes parcio Traeth Pentywyn; Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn

**PENDERFYNWYD cymeradwyo taliadau Hamdden 2020-21 fel y'i nodir yn yr adroddiad gan ychwanegu taliad ar gyfer aelodaeth platfform digidol ar gyfer Chwaraeon a Hamdden sef £10 y mis a £7.50 y mis ar gyfer cwsmeriaid presennol Chwaraeon a Hamdden Actif a rhai'r dyfodol.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council